

Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau'n Strategol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3014A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/sydd i'w gyflawni yn unol â helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn rhinwedd ei swydd unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Cynnwys

Mae gan y Cyngor drefniadau da i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol ond bellach mae angen iddo roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau wrth adnewyddu ei strategaeth a'i drefniadau ategol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau da i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol ond bellach mae angen iddo roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau wrth adnewyddu ei strategaeth a'i drefniadau ategol 6

Mae'r Cyngor yn paratoi i adnewyddu ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol ac mae angen iddo sicrhau y caiff hon ei llywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy 6

Mae gan y Cyngor drefniadau da i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol ac ar ôl ymateb i argyfwng COVID-19 mewn modd ystwyth ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus mae'n ceisio cadw rhai o fanteision y ffyrdd newydd o weithio 9

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i fonitro cynnydd ar ei gynllun rheoli asedau, ond, fel cynghorau eraill, bydd angen iddo gymharu ei ddata a'i berfformiad ag eraill i'w helpu i ddangos bod ei drefniadau rheoli asedau yn cynnig gwerth am arian 11

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

- 1 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau. Edrychwyd ar sut y mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol y defnydd o'i asedau, sut y mae'n monitro'r defnydd o'i asedau a sut y mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.
- 2 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddefnyddio profiadau pandemig COVID-19 byd-eang, i edrych ar sut y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.
- 3 Pan ddechreuom ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond gwnaethom hefyd nodi ein disgwiliad y byddem, yn y tymor canolig, yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut y mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach yn agosáu at saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn ail gyfnod adrodd y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl erbyn hyn i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl ac yn llunio'r hyn a wnânt yn wirioneddol.
- 4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:
 - cael sicrwydd bod cynghorau'n rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau;
 - esbonio'r camau y mae cynghorau'n eu cymryd yn unigol ac ar y cyd i gryfhau eu trefniadau yn ogystal â gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
 - ysbrydoli cynghorau a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach drwy gasglu a rhannu enghreifftiau o arferion nodedig a dysgu a gwneud argymhellion priodol.
- 5 Cynhaliwyd yr adolygiad gennym yn ystod y cyfnod Tachwedd a Rhagfyr 2021, gan adolygu dogfennau allweddol y Cyngor a siarad â swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor. Darparwyd adborth llafar gennym ar ein gwaith i'r Cyfarwyddwr Ystadau Corfforaethol ym mis Ionawr 2022.
- 6 Mae gan y Cyngor bortffolio tir ac eiddo sylweddol sy'n cynnwys 450 o safleoedd y Cyngor a 933 o adeiladau unigol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, gwerth y rhain oedd dros £709 miliwn. Mae prif swyddfa a chyfleusterau storio'r Cyngor mewn 20 o'i adeiladau gweithredol, ac mae tua 1,700 o aelodau staff yn gweithredu ohonynt.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 7 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor o ymdrin â'i asedau yn helpu'r Cyngor yn effeithiol i gryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwaith o ddarparu ei wasanaethau yn y tymor byr a'r tymor hirach?
- 8 Yn gyffredinol, canfuom fod gan y Cyngor drefniadau da i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol, ond bellach mae angen iddo roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystriaethau wrth adnewyddu ei strategaeth a'i drefniadau ategol.
- 9 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:
 - mae'r Cyngor yn paratoi i adnewyddu ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol ac mae angen iddo sicrhau bod hyn yn cael ei lunio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy;
 - mae gan y Cyngor drefniadau da i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol ac ar ôl ymateb i argyfwng COVID-19 mewn modd ystywyth ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus mae'n ceisio cadw rhai o fanteision y ffyrdd newydd o weithio; ac
 - mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i fonitro cynnydd ar ei gynllun rheoli asedau, ond, fel cynghorau eraill, bydd angen iddo gymharu ei ddata a'i berfformiad ag eraill i'w helpu i ddangos bod ei drefniadau rheoli asedau yn cynnig gwerth am arian.

Argymhelliad

Arddangosyn 1: argymhelliad

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhelliad a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhelliad

- A1 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn ysgogi ac yn llywio ei ddull o ymdrin â'i holl asedau. Er enghraifft:
- dylai'r Cyngor ddatblygu dull tymor hirach o ymdrin â'i asedau; a
 - bydd angen i'r Cyngor integreiddio ei weithlu a'i strategaethau digidol yn llawn â'i gynlluniau tymor hirach ar gyfer ei asedau.

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau da i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol ond bellach mae angen iddo roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau wrth adnewyddu ei strategaeth a'i drefniadau ategol

Mae'r Cyngor yn paratoi i adnewyddu ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol ac mae angen iddo sicrhau y caiff hon ei llywio'n llawn gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy

Pam mae gosod gweledigaeth glir yn bwysig

10 Mae strategaeth rheoli asedau glir a chynlluniau cyflawni datblygedig yn bwysig er mwyn nodi'r defnydd a fwriedir o asedau yn y tymor byr a'r tymor hirach; yr arian sydd ar gael i gynnal a datblygu asedau, yn ogystal â'r galw a ragwelir yn y dyfodol am ddarparu gwasanaethau, a'r gost o'u darparu. Mae hefyd yn bwysig nodi sut y gall y strategaeth rheoli asedau gyflawni amcanion strategol ehangach, gan gynnwys: gweithio ystwyth, gweithlu, digidol a lleihau allyriadau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a wnaed yn sgil pandemig covid-19 byd-eang helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau.

Pam mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn bwysig

11 Pan ddechreuom ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roeddem yn cydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond gwnaethom hefyd nodi ein disgwyliad y byddem, yn y tymor canolig, yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu dangos sut y mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach yn agosáu at saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym bellach yn ail gyfnod adrodd y Ddeddf. Felly, byddem yn disgwyl erbyn hyn i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl ac yn llunio'r hyn a wnânt yn wirioneddol.

12 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n rhaid i gynghorau gyflawni datblygu cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er mwyn gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae'n ofynnol i'r Cyngor weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Er mwyn gweithredu yn y modd hwnnw, mae'n rhaid i'r

Cyngor ystyried y pum ffordd o weithio: Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys, Cydweithio ac Atal. Mae canllawiau statudol ar y Ddeddf yn nodi'r saith gweithgaredd sefydliadol craidd y mae'n hanfodol cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy iddynt. Asedau yw un o'r gweithgareddau sefydliadol craidd hynny.

13 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddangos ei fod yn ystyried canlyniadau tymor hirach ei benderfyniadau.

14 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- mae'r Cyngor yn llunio gweledigaeth glir ar gyfer ei asedau fel y nodir yn ei Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMP) 2018-23. Prif nod y CAMP 'yw manteisio i'r eithaf ar y buddion sy'n deillio o'n tir a'n hadeiladau, helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, bodloni gofynion y gwasanaethau, codi referniw trwy incwm sy'n dod o lety rhent a chydymffurfio â dyletswyddau rheoleiddiol a statudol'.
- wrth wraidd CAMP 2018-23, mae gan y Cyngor amcan craidd i leihau nifer yr adeiladau swyddfeydd cyngor, gan leihau costau referniw a chostau rhedeg a chynnal a chadw, drwy gyfuno staff i lai o adeiladau a chael gwared ar yr adeiladau dros ben. 'Gwneud y defnydd gorau o bortffolio tir ac eiddo'r Cyngor' yw un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-24.
- er mwyn llywio'r CAMP, mae'n ofynnol i adrannau gwasanaeth lunio Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth (SAMP) blynyddol. Mae'r SAMP blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am faterion rheoli, cyflwr a chynnal a chadw'r asedau.
- roedd y Cyngor yn ceisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd o £4.6 miliwn yn y gyllideb o fewn ei gyllideb referniw ar gyfer 2021-22. Mae'r Cyngor yn bwriadu y bydd defnyddio ac optimeiddio adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol fel y'u nodir yn eu 'Cynllun Gweithle'r Adolygiad o Asedau Adeiledig – Addas i'r Dyfodol' drafft yn cyfrannu at yr arbedion effeithlonrwydd cyllidebol hyn.
- ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn adolygu ei bortffolio tir, eiddo a gweithle, a elwir yn 'Gynllun Gweithle'r Adolygiad o Asedau Adeiledig – Addas i'r Dyfodol'. Bydd yr adolygiad hwn yn llywio dyfodol asedau'r Cyngor a'i gynllun cyflawni y tu hwnt i 2023.
- gwelsom rai enghreifftiau cadarnhaol lle gall y Cyngor ddangos ei fod wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio yn ei waith cynllunio rheoli asedau a gwneud penderfyniadau. Er enghraifft:
 - mae'r Cyngor wedi lleihau nifer adeiladau swyddfa'r Cyngor yn sylweddol yn unol â'i CAMP 2018-23 a, gan ddefnyddio ei brofiad o bandemig COVID-19 a newidiadau dilynol i sut a ble mae llawer o'i staff yn gweithio bellach, mae unwaith eto'n ystyried dyfodol ei swyddfeydd yn y tymor hirach;
 - sut y mae'r Cyngor wedi bod yn ymwybodol o'r effaith y gallai ei benderfyniadau ei chael ar adfywio canol trefi a datgarboneiddio; a

- chyflwyno'r saith Canolfan Cydnerthedd Cymunedol partneriaeth, a sefydlwyd gan y Cyngor cyn pandemig COVID, sy'n cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau i'r gwasanaethau a ddarperir gan 18 o sefydliadau partner. Yn ei adroddiad Perfformiad Corfforaethol 2021-22, adroddodd y Cyngor fod y Canolfannau wedi helpu dros 3,000 o drigolion yn ystod y pandemig, gan gynnwys sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn parhau i dderbyn gwasanaethau.
- fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, canfuom fod angen i'r Cyngor ddangos yn llawnach fod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrthi'n llunio ei Adolygiad o Asedau Adeiledig a'i waith cynllunio asedau yn y dyfodol. Er enghraifft, dylai'r Cyngor:
 - fabwysiadu dull llawer mwy hirdymor o gynllunio, wedi'i ategu gan ystyriaeth o dueddiadau hirdymor a sut y gallant effeithio ar yr hyn y mae'r Cyngor eisiau/angen ei wneud i'r Cyngor yn y tymor byr a'r tymor canolig.
 - cynnwys rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau yn ei waith cynllunio rheoli asedau. Er enghraifft, mae angen i'r Cyngor ddeall sut mae defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno defnyddio gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol er mwyn llywio ei gynlluniau ar gyfer ei ystâd.
 - mabwysiadu dull integredig o gynllunio o'r cychwyn cyntaf er mwyn gallu cyflawni'r canlyniadau gorau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Canfu ein hadolygiad na fu pob maes perthnasol yn rhan o'r Adolygiad o Asedau Adeiledig drafft. Roedd angen i'r Cyngor gryfhau'r alinio rhwng ei wahanol strategaethau, fel ei adolygiad o asedau, cynllun y gweithlu, strategaeth ddigidol ddrafft a chynlluniau lleihau carbon, sydd i gyd yn effeithio ar ei gilydd. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod ei waith cynllunio asedau yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.
 - ystyried sut y gall ei waith cynllunio asedau helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun a sut y gallai effeithio ar gyflawni amcanion llesiant sefydliadau eraill.
- codwyd y pwyntiau hyn gyda'r Cyfarwyddwr Ystadau pan wnaethom gyfarfod ym mis Ionawr 2022 gan ein bod yn cydnabod bod yr Adolygiad o Asedau Adeiledig yn parhau. Cawsom ein calonogi gan ymateb y swyddog i'n hadborth. Er enghraifft, ers hynny mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor uwch swyddogion i sicrhau bod strategaethau asedau allweddol y Cyngor yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mae gan y Cyngor drefniadau da i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol ac ar ôl ymateb i argyfwng COVID-19 mewn modd ystwyth ac mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus mae'n ceisio cadw rhai o fanteision y ffyrdd newydd o weithio

Pam mae rheoli'r broses o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau yn effeithiol yn bwysig

- 15 Mae'n bwysig bod cynlluniau rheoli asedau yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod gwariant gwirioneddol mor agos at y lefelau a gynlluniwyd â phosibl a bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithio effeithiol â sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau o ran eu hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion. Lle nad oes gan gynghorau yr ystod o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd i reoli asedau'n effeithiol a chyflawni newidiadau strategol, gallai hyn leihau'r gallu i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.
- 16 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:
- yn unol ag amcan ei Gynllun Corfforaethol, ers 2018 mae'r Cyngor wedi sicrhau gostyngiad o 30% i nifer yr adeiladau y mae naill ai'n berchen arnynt neu'n eu rhentu. Mae hyn yn uwch na'i darged gwreiddiol o 20%. Rhwng 2018-20, gwaredodd y Cyngor 66 o adeiladau dros ben a chynhyrchodd tua £5.9 miliwn o dderbyniadau cyfalaf.
 - mae gan y Cyngor broses amlinellol fras sefydledig ar gyfer asesu'r ystod o ddefnydd posibl o adeiladau sydd wedi'u nodi fel rhai dros ben yn y Cyngor ac ar wasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys integreiddio, cydweithredu a threfniadau tymor hirach, sef bod y Cyngor:
 - yn ystyried a fyddai un arall o'i wasanaethau ei hun yn gallu defnyddio'r ased;
 - yn ystyried a oes diddordeb yn yr ased ymysg y gwasanaeth cyhoeddus ehangach;
 - yn ymgysylltu ag aelod etholedig y Cyngor ar gyfer y ward y mae'r adeilad wedi'i leoli ynddi;
 - yn mesur y posibilrwydd o drosglwyddo asedau cymunedol. Lansiodd y Cyngor ei 'raglen RhCT Gyda'n Gilydd' yn 2015 i alluogi sefydliadau cymunedol i ddefnyddio safleoedd nad oedd eu hangen mwyach ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor. Enghraifft ddiweddar o'r Cyngor yn nodi dewis amgen i waredu asedau yw Hwb Partneriaeth Gymunedol Glynrhedynog sydd bellach yn prydlesu hen ysgol gan y Cyngor.

- yna, os nad yw'r Cyngor yn gallu nodi defnydd gwasanaeth cyhoeddus amgen ar gyfer yr ased, mae'n gwerthu'r ased.
- mae'r Cyngor yn dibynnu'n llwyr ar y meysydd gwasanaeth i ystyried ac ymgysylltu â'i ddefnyddwyr gwasanaeth wrth reoli ei ddefnydd o asedau adeiledig. Dylai'r Cyngor sicrhau bod safbwynt defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gasglu, ei ystyried yn briodol ac yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ar ddyfodol adeiladau gweithredol y Cyngor, yn enwedig y rhai a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd.
- roedd cynnal gwasanaethau hanfodol y Cyngor yn ystod y pandemig yn gofyn am hyblygrwydd ei staff, cynyddu digideiddio gwasanaethau ac atebion ymarferol i alluogi dros 3,000 o staff a oedd gynt yn gweithio mewn swyddfeydd i weithio gartref. Er bod y Cyngor eisoes yn adolygu ac yn rhesymoli ei asedau, mae'r pandemig wedi cyflymu rhai o'i gynlluniau a'i drefniadau.
- gall y Cyngor ddangos ei fod yn monitro ac yn dysgu o'r newidiadau a achoswyd gan y pandemig a sut y gall hyn ei helpu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwaith o ddarparu ei wasanaethau. Un enghraifft yw bod y Cyngor wedi nodi patrymau gwaith sy'n newid: mae rhai swyddfeydd bellach yn cael eu tanddefnyddio. Mae amcan blaenorol y Cyngor i leihau nifer yr adeiladau swyddfa a chyfuno staff mewn llai o adeiladau wedi esblygu. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn treialu mannau cydweithredol mwy hyblyg i'w staff gyfarfod yn ei swyddfeydd ym Mhorth, wrth gadw cyfran sylweddol o'r staff yn gweithio gartref.
- ym mis Ebrill 2018, dechreuodd y Cyngor ddatblygu rhaglen fuddsoddi fesul cam dros dair blynedd. Mae wedi sefydlu deg canolfan gymunedol fel rhan o ddull y Cyngor o adeiladu cymunedau cadarn ac ymyrraeth ac atal cynnar. Chwaraeodd llawer o'r hybiau cymunedol hyn ran hanfodol yn y pandemig, lle'r oedd staff yn darparu parseli bwyd, yn rhoi cyngor ar fudd-daliadau ac yn helpu preswylwyr i siopa.
- ceir enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi defnyddio ei asedau ar y cyd â sefydliadau eraill, megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol cyfagos, Heddlu De Cymru, y trydydd sector a phartneriaid eraill. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys:
 - canolfannau brechu wedi'u lleoli yng nghanolfannau hamdden y Cyngor.
 - datblygu ac ehangu eu hybiau partneriaeth gymunedol sy'n cyfeirio defnyddwyr gwasanaethau i'r gwasanaethau a ddarperir gan 18 o sefydliadau eraill. Dywedodd y Cyngor wrthym fod y cyngor yn bwriadu ymestyn y trefniadau hyn i 25 o sefydliadau yn y dyfodol agos.
 - adleoli banciau bwyd yn dilyn y difrod a achoswyd gan y llifogydd yn ystod Storm Dennis yn 2020.

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau i fonitro cynnydd ar ei gynllun rheoli asedau, ond, fel cynghorau eraill, bydd angen iddo gymharu ei ddata a'i berfformiad ag eraill i'w helpu i ddangos bod ei drefniadau rheoli asedau yn cynnig gwerth am arian

Pam mae adolygu'n effeithiol y modd y cyflwynir newidiadau arfaethedig i asedau yn bwysig

- 17 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a'r tymor hirach. Gall defnyddio data meincnodi roi cipolwg defnyddiol ar berfformiad unigol cynghorau a gall nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu oddi wrth sefydliadau eraill
- 18 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom y canlynol:
 - yn ein hadroddiad rheoli asedau strategol yn 2016¹, gwnaethom argymhell 'Dylai'r Cyngor ddatblygu dulliau o gyflwyno darlun cynhwysfawr i uwch-reolwyr ac aelodau etholedig o'r modd y caiff ei asedau eu rheoli, er mwyn sicrhau goruchwyliaeth barhaus a llywio penderfyniadau.' Yn dilyn yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau ac mae ei Gabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd a chynhwysfawr ar y CAMP presennol er mwyn gallu monitro ei gynnydd. O ystyried y cysylltiadau â strategaethau a chynlluniau eraill, megis y gweithlu, digidol a datgarboneiddio, dylai'r Cyngor ystyried sut y gall adroddiadau a threfniadau monitro yn y dyfodol ei helpu i ddeall a herio cynnydd yn erbyn targedau ac integreiddio ei gynlluniau.
 - fel rhan o'n harchwiliad o asesiadau perfformiad cynghorau ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, nodwyd llai o gyfeiriad at wybodaeth gymharol am berfformiad er ein bod yn cydnabod bod y pandemig wedi arwain at al rhywfaint o gasglu data cenedlaethol. Bydd y gallu i gymharu data a pherfformiad â sefydliadau eraill yn parhau i fod yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian a bydd yn her i gynghorau ei ystyried yn arbennig wrth iddynt barhau i weithredu'r gofynion sy'n ymwneud â hunanasesu a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
 - er bod y Cyngor yn gefnogol iawn i gymharu drwy feincnodi, gydag uwch swyddog ac aelod etholedig â swyddogaethau gyda'r Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru² (CLAW), mae'r cyfle i gymharu a dysgu rhwng cynghorau wedi'i atal dros dro yn ystod pandemig COVID-19.

¹ Archwilio Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Asesiad Gwella 2015-16: Adolygiad o Ddull Strategol y Cyngor o Reoli Asedau, Ionawr 2016

² CLAW Amdanom ni

- adroddodd y Cyngor ei fod yn dilyn y canllawiau arfer gorau a luniwyd gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo neu waredu neu rannu meddiant o dir ac eiddo rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- mae swyddogion yn adran Ystadau'r Cyngor yn rhyngweithio'n rheolaidd â'u corff proffesiynol, Cymdeithas y Prif Syrffwyr Ystadau ac wedi elwa ar wersi a hyfforddiant a rannwyd.
- er bod gan y Cyngor drefniadau da ar hyn o bryd i gyflawni ei strategaeth rheoli asedau corfforaethol bresennol, dylai fynd ati i geisio cymharu ei drefniadau a dysgu oddi wrth sefydliadau eraill i barhau i wella ei drefniadau ei hun, gan wneud y defnydd gorau o'i rwydweithiau proffesiynol lle bo hynny'n bosibl.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.